

# Sioeau gwych ar garreg eich drws

 Noson Allan  
Night Out



Ydych chi'n rhan o grŵp cymunedol  
yng Nghymru a hoffai drefnu sioe  
broffesiynol yn eich ardal leol?

Gall **Noson Allan** eich helpu i wneud hyn drwy gymryd cyfrifoldeb am y risg ariannol a'r pen tost. Mae'n syml ac yn hawdd ei ddefnyddio, a gall y cynllun ddarparu arian a thocynnau, ynghyd â chyngor a chymorth ymarferol, yn ogystal ag argymell cwmnïau gwych sy'n addas i'ch neuadd leol.



Umduno Wesizwe, Eglwys St. Joseff, Cwmaman  
(llun: Betina Skovbro)  
Tudalen flaen: Cynulleidfa Noson Allan (llun: Hazel Hannant)

 **Noson Allan**  
**Night Out**

**Ffôn: 029 2044 1340**  
**[ymholiadau@nosonallan.org.uk](mailto:ymholiadau@nosonallan.org.uk)**  
**[www.nosonallan.org.uk](http://www.nosonallan.org.uk)**

Noson Allan, Cyngor Celfyddydau Cymru,  
Plas Bute, Caerdydd CF10 5AL



The New Rope String Band,  
Canolfan Gymunedol Llanfwrog  
(llun: CP Imaging)

*Mae Noson Allan wedi gweithio gyda channoedd o leoliadau cymunedol ledled Cymru, gan eu galluogi i hyrwyddo dros 9,000 o berfformiadau o bob math - o theatr i syrclas, dawns a sioeau pypedau - i dros 600,000 o bobl.*

## Sut mae'n gweithio - yn syml:

- Cysylltwch â'r perfformiwr, trefnwch ddyddiad.
- Gwnewch gais i Noson Allan, naill ai ar-lein neu drwy gwblhau ffurflen archebu 3 tudalen, gan sicrhau eich bod yn dychwelyd y ffurflen o leiaf 4 wythnos cyn y digwyddiad, ond mor gynnar â phosibl yn ddelfrydol.
- Os byddwch yn llwyddiannus, bydd Noson Allan yn talu ffi'r perfformiwr, a byddwch yn archebu'r perfformiwr am bris gostyngol a fydd yn cael ei warantu gan eich awdurdod lleol, ac felly'n dileu'r risg ariannol.
- Byddwch chi'n trefnu'r digwyddiad, yn gwneud cais am drwyddedau lleol, gosod posterï a hyrwyddo'r sioe i'ch cymuned leol, yn mwynhau ac yn a'n adrodd yn ôl ar y digwyddiad - gan dalu'r incwm a wnaed drwy werthu tocynnau yn ôl (*hyd at uchafswm o ffi'r perfformiwr*).

Mae Noson Allan yn rhan o Gyngor Celfyddydau Cymru ac mae'n gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol. Ei nod yw annog, galluogi a chefnogi:

- Perfformiadau proffesiynol o safon mewn cymunedau ledled Cymru, i bobl na fyddai'n cael mynediad i ddigwyddiadau celfyddydol o bosibl.
- Annog economi'r celfyddydau - gan roi llwyfan i berfformwyr o Gymru a thu hwnt gyrraedd cymunedau lleol.
- Annog datblygiad cymunedol, gwirfoddoli, a'r economi leol a chyfrannu at ddefnyddio neuaddau pentref a lleoliadau cymunedol fel manau amlwg ar gyfer sefydliadau lleol.
- Rhoi cyngor, syniadau ac argymhellion i grwpiau hyrwyddo.



Jamie Smith, Mabon



Cyngor Celfyddydau Cymru  
Arts Council of Wales



Mae Noson Allan yn aelod o Fforwm y Celfyddydau Perfformio Teithiol Cenedlaethol





“ Mae cynllun Noson Allan wedi'n galluogi i ddod â gwaith theatr o'r safon uchaf i Flaengarw. Mae'r broses yn hawdd iawn ... mae'r staff yn barod eu cymorth ac yn rhannu ein gweledigaeth ar gyfer sicrhau bod y digwyddiadau o'r math hwn ar gael i bobl leol. Gwaetha'r modd, heb Noson Allan, ni fyddai hyn yn ymarferol, a byddai'r gymuned yn colli allan ar gael profiadau gwych. ”

*Chwedlau Aesop, Theatr na n'Óg*  
(Ilun: Simon Gough)

Steve Honeywill,  
Ymddiriedolaeth Datblygu Creation

## “ Mae Noson Allan yn rhwyd achub wych.”

Siobhan McGovern, Hyrwyddwr, Sir Benfro

“ Mae'r cynllun wedi cael effaith wirioneddol ar ein cymuned fach bentref wledig. Mae'r cyfuniad arbennig o adloniant proffesiynol fforddiadwy o safon mewn amgylchedd lleol iawn, wedi helpu i greu ymdeimlad o gymuned a chyfeillgarwch, gan roi cyfle i bobl weld gwaith theatr, na fyddent yn ei brofi fel arall o bosibl. ”

Hilary Denison, Hyrwyddwr, Sir y Fflint